**PWYLLGOR RHANBARTH Y DE-ORLLEWIN**

**ADRODDIAD I'R CYNULLIAD 1999-2000**

**Cyflwyniad**

1. Mae Pwyllgor Rhanbarth y De-orllewin yn un o bedwar pwyllgor rhanbarth y Cynulliad a sefydlwyd dan Reol Sefydlog 10.
2. Mae Rheol Sefydlog 10.2 yn datgan:

   "Dylai pwyllgorau rhanbarth gynghori'r Cynulliad ar faterion sy'n effeithio ar eu rhanbarthau, effaith polisïau'r Cynulliad yn y rhanbarthau hynny a gwaith cyrff cyhoeddus yno." Mae gofyn i'r Pwyllgor gyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn yn y rhanbarth.

3. Mae 17 aelod:

| | | |
|---|---|---|
| Peter Black (Cadeirydd) | Gorllewin De Cymru | Democratiaid Rhyddfrydol |
| Nicholas Bourne | Canolbarth a Gorllewin Cymru | Ceidwadwyr |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru | Ceidwadwyr |
| Cynog Dafis | Canolbarth a Gorllewin Cymru | Plaid Cymru |
| Andrew Davies | Gorllewin Abertawe | Llafur |
| Glyn Davies | Canolbarth a Gorllewin Cymru | Ceidwadwyr |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru | Plaid Cymru |
| Richard Edwards | Preseli Sir Benfro | Llafur |
| Delyth Evans<br><br>(o 1.5.00) | Canolbarth a Gorllewin Cymru | Llafur |
| Val Feld | Dwyrain Abertawe | Llafur |
| Brian Gibbons | Aberafan | Llafur |

| | | |
|---|---|---|
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin<br><br>a De Sir Benfro | Llafur |
| Edwina Hart | G•yr | Llafur |
| Helen Mary Jones | Llanelli | Plaid Cymru |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru | Plaid Cymru |
| Alun Michael<br><br>(tan 30.4.00) | Canolbarth a Gorllewin Cymru | Llafur |
| Gwenda Thomas | Castell Nedd | Llafur |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin<br><br>a Dinefwr | Plaid Cymru |

Etholir Cadeirydd newydd yn y cyfarfod nesaf ar 14 Gorffennaf

**Cyfarfodydd**

Mae'r Pwyllgor wedi cyfarfod saith o weithiau rhwng mis Gorffennaf 1999 a mis Mehefin 2000. Ar wahân i ddau gyfarfod ar ffurf sioeau teithiol yn ymwneud ag Amcan Un a Datblygu Cynaliadwy, lluniwyd y rhan fwyaf o'r agendâu mewn ymateb i awgrymiadau gan aelodau.

**Dull gweithio**

Yn ei gyfarfod cyntaf ym mis Gorffennaf, ystyriodd y Pwyllgor ei rôl a phenderfynu y dylai ganolbwyntio ar faterion strategol ac archwilio gwasanaethau cyhoeddus yn ei ardal, tra'n gofalu cyfannu, yn hytrach nag ailadrodd swyddogaethau awdurdodau lleol ac asiantaethau cyhoeddus eraill.

Mae'r Pwyllgor wedi ceisio meithrin cysylltiadau gyda phartneriaid ac asiantaethau allanol.

Mae'n cysylltu'n rheolaidd â Fforwm Economaidd De-orllewin Cymru, a wahoddir i gyfrannu i bob cyfarfod.

Roedd yr aelodau o'r farn bod y Pwyllgor Rhanbarth yn fforwm delfrydol i'r cyhoedd fedru chwarae rhan weithredol yng ngwaith y Cynulliad, ac i'r Cynulliad wrando ar y cyhoedd. Ar ddechrau pob cyfarfod, mae sesiwn microffon agored 30-munud sy'n caniatáu i'r cyhoedd holi aelodau a chynnig sylwadau. Os nad yw'r aelodau yn medru cynnig ateb cynhwysfawr i'w cwestiynau, mae'r Cadeirydd yn ysgrifennu at yr Ysgrifennydd priodol yn y Cynulliad yn gofyn iddynt ddarparu ateb llawn.

Estynnwyd cyfraniad y cyhoedd yn ystod cyfarfodydd diweddar, gyda'r cyhoedd yn derbyn gwahoddiad i gymryd rhan mewn trafodaethau yngl•n ag eitemau eraill ar yr agenda.

**Lleoliadau Cyfarfodydd**

Mae'r Pwyllgor yn teimlo'n gryf y dylai pawb sy'n byw yn y rhanbarth fedru mynychu'r cyfarfodydd. Mae wedi cwrdd mewn trefi ar hyd a lled ei ardal mewn siambrau cyngor, neuaddau cymuned a chlwb cymdeithasol. Mae wedi cwrdd o leiaf unwaith ymhob un o'r pedair ardal awdurdod lleol. Lle bo hynny'n bosibl, dewiswyd lleoliadau hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn ac eraill gydag anghenion arbennig. Mae'r Clerc bellach yn ymgynghori gyda'r Aelod o'r Cynulliad lleol ac unrhyw gr•p mynediad i'r anabl lleol wrth ddewis lleoliadau.

**Y Materion**

Mae'r pwyllgor wedi delio ag ystod o eitemau agenda o bwys ar draws sbectrwm cyfrifoldebau'r Cynulliad.

<u>Yr Economi</u>

Ym mis Medi, trefnodd y Pwyllgor sioe deithiol ar y cyd â'r Pwyllgor Datblygu Economaidd fel rhan o ymgynghoriad y Cynulliad parthed Amcan Un. Cafwyd cyflwyniadau i'r Pwyllgor gan 21 o fudiadau. Cafodd manylion am y cyflwyniadau hyn eu bwydo i drafodaethau'r Pwyllgor Datblygu Economaidd. Y prif bwyntiau a gododd o'r cyfarfod oedd yr angen i reoli galw a disgwyliadau; denu swyddi safon uwch i'r rhanbarth a sicrhau bod sgiliau gan y gweithlu; a sicrhau cydbwysedd rhwng rhaglenni cenedlaethol a lleol, gyda chyfranogiad lleol. Yn sgil hynny, edrychodd y Pwyllgor ar argymhellion i weithredu Amcan Un ac mae'n bwriadu cynnal trafodaethau pellach ym mis Gorffennaf ar y berthynas rhwng cynlluniau gweithredu rhanbarthol a lleol.

Yn ogystal, cafodd y Pwyllgor drafodaethau yn llawn gwybodaeth ar y seilwaith sydd ei angen i

gefnogi economi datblygol y rhanbarth. Roedd hyn yn cynnwys seilwaith "caled" ffyrdd a chyflenwi ynni, ynghyd â seilwaith "meddal" gwybodaeth electronig a thechnoleg cyfathrebu.

Ym mis Mawrth, cafodd y pwyllgor gyflwyniadau gan fudiadau twristiaeth yn pwysleisio pwysigrwydd twristiaeth i'r rhanbarth.

Addysg a Hyfforddiant

Ym mis Hydref, cyfarfu'r Pwyllgor â chynrychiolwyr mudiadau hyfforddi i drafod effaith Cynllun Addysg a Hyfforddiant Cymru ar y rhanbarth. Cyfeiriwyd canfyddiadau'r Pwyllgor i'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16.

Yr Amgylchedd

Denodd y sioe deithiol ar ddatblygu cynaliadwy ym mis Chwefror sylw cyhoeddus arwyddocaol. Roedd yn rhan o broses ymgynghori'r Cynulliad wrth ddrafftio'r cynllun statudol angenrheidiol dan adran 121 Deddf Llywodraeth Cymru 1998. Derbyniwyd cyflwyniadau gan 23 o fudiadau, yn ogystal â chyfraniadau o'r oriel gyhoeddus. Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r cynllun statudol.

Iechyd

Siomwyd yr aelodau pan na dderbyniodd bob un o awdurdodau ac ymddiriedolaethau iechyd y rhanbarth wahoddiad i gymryd rhan yn nhrafodaeth mis Rhagfyr ar ddarpariaeth gwasanaethau iechyd yn y rhanbarth. Cafodd y rhai a dderbyniodd gyfle i gynghori'r Pwyllgor yngl•n â'u blaenoriaethau, eu problemau a'u pryderon.

Yn yr un cyfarfod, derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniadau ar ehangu addysg feddygol israddedig yng Nghymru, a'r potensial am ail safle ysgol feddygol yng Nghymru, i'w leoli yn Abertawe. O ganlyniad i'r cyfarfod, holwyd i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 ystyried y mater ymhellach.

Y Sector Gwirfoddol

Ym mis Mawrth, derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad gan y pedwar cyngor gwirfoddol sirol yn y rhanbarth yn sôn am eu rôl a chyfraniad gwaith gwirfoddol i'r gymuned. Pwysleisiodd y cyflwyniad yr angen am strwythurau cefnogi gwell ar gyfer y sector, gwell hyrwyddo cyhoeddus a chysylltiadau cadarn â'r Cynulliad Cenedlaethol. Roedd y sector yn aml yn medru mynd i'r afael â materion na fedrai’r sector cyhoeddus, a thrwy hynny wella safon byw pobl.

**Casgliad**

Mae'r Pwyllgor wedi dechrau drwy wneud gwaith da, ac wedi llwyddo i gynnwys y cyhoedd sy'n mynychu'r cyfarfodydd. Mae wedi ymateb i ystod o faterion yn ystod ei flwyddyn gyntaf. Bu'n fwyaf llwyddiannus wrth ganolbwyntio ar agweddau rhanbarthol datblygiadau Cymru-gyfan, Amcan Un a Datblygu Cynaliadwy. Bellach, mae angen iddo adeiladu ar y llwyddiannau hynny a sicrhau bod ei waith yn adborthi mewn modd strwythuredig i brosesau gwneud penderfyniadau y Cynulliad.

Hyderaf y bydd diddordeb a chyfranogiad y cyhoedd yn y pwyllgorau hyn yn cynyddu yn y dyfodol. Bydd hyn yn gofyn am agendâu wedi eu cynllunio'n dda, cyhoeddusrwydd effeithiol ac ymrwymiad parhaus yr aelodau.

Peter Black

Cadeirydd

ATODIAD

## PWYLLGOR RHANBARTH Y DE-ORLLEWIN

### AMSERLEN CYFARFODYDD

### Gorffennaf 1999 i Fehefin 2000

| Dyddiad | Lleoliad | Agenda |
| --- | --- | --- |

| | | |
|---|---|---|
| 2 Gorff 1999 | Neuadd y Sir, Caerfyrddin | Ethol Cadeirydd;<br><br>Rhaglen Waith y Dyfodol<br><br>Materion Ymarferol yn ymwneud â Chyfarfodydd |
| 13 Medi 1999 | Neuadd y Ddinas, Abertawe | Sioe Deithiol ar Arian Amcan Un<br><br>*(cyfarfod ar y cyd â'r Pwyllgor Datblygu Economaidd)* |
| 8 Hydref 1999 | Neuadd y Sir, Hwlffordd | Microffon Agored;<br><br>Cynllun Addysg a Hyfforddiant Cymru;<br><br>Seilwaith De-orllewin Cymru; |
| 10 Rhag 1999 | Neuadd Eglwys Gatholig Our Lady Queen of Peace, Llanelli | Microffon Agored;<br><br>Materion Iechyd:<br><br>Addysg Feddygol Israddedig yn Abertawe;<br><br>Darpariaeth Gwasanaethau Iechyd<br><br>yn Ne-orllewin Cymru;<br><br>Gweithredu Amcan Un. |
| 11 Chwe 2000 | Aquadome, Port Talbot | Sioe deithiol Datblygu Cynaliadwy |
| 17 Maw 2000 | Pafiliwn De Valence, Dinbych-y-Pysgod | Microffon Agored;<br><br>Twristiaeth ac Economi De-orllewin Cymru;<br><br>Cyfraniad y Sector Gwirfoddol i'r Gymuned<br><br>yn Ne-orllewin Cymru. |

| | | |
|---|---|---|
| 14 Ebrill 2000 | Canolfan Hamdden Castell Newydd Emlyn | Gohiriwyd y cyfarfod |
| 16 Meh 2000 | Clwb Cymdeithasol Penlan, Penlan, Abertawe | Microffon Agored;<br><br>Trafnidiaeth Gyhoeddus. |